



Llanbydder – Cynllun Adferiad a Thwf Economaidd

Cynllun Drafft ar gyfer Ymgynghori

Paratowyd ar gyfer Cyngor Sir Gar

Mawrth 2021



Tabl Cynnwys

1 Pam ydym ni'n gwneud hyn?	2
2 Y Darlun Ehangach	4
3 Llanybydder Heddiw	6
4 Ystyriaethau a Chyfleoedd Lleol	12
5 Camau â blaenoriaeth	14
6 Cyflawni'r gwaith	22

This document has been prepared by: Owen Davies Consulting Ltd. On behalf of Carmarthenshire County Council. Prepared by: Owen Davies, David Jones (Chilmark Consulting), Arwel Jones (Arwel Jones Associates), John Anderson (John Anderson Associates)
Owen Davies Consulting Ltd
7B Nevill Street
Abergavenny
NP7 7DR
www.owendaviesconsulting.co.uk
07809 594524
owen@owendaviesconsulting.co.uk

All maps within this document are:
Reproduced from Ordnance Survey with permission of the controller of Her Majesty's Stationery Office (C) Crown copyright.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2020 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights [2020] Ordnance Survey 100023377

Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution/ civil proceedings.



A485

Afon Teifi

B4338

Llanbydder

B4337

1 Pam ydym ni'n gwneud hyn?

Mae'r Cynllun Adferiad a Thwf hwn ar gyfer Llanybydder yn ymwneud â'r cyfleoedd sydd ar hyn o bryd ar gyfer adferiad economaidd cynaliadwy yn ogystal â ffyniant a thwf mwy hirdymor y dref a'r ardal o'i chwmpas dros y pum mlynedd nesaf a'r tu hwnt i hynny.

Mae effeithiau economaidd Coronafeirws yn gwbl eithriadol na proffwyd erioed o'r blaen gan ein cenhedlaeth. Mae'r effeithiau hyn yn negyddol yn bennaf i'r economi leol, ond mae rhai pethau cadarnhaol, gyda chymunedau'n dod yn nes at gilydd a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n gwirioneddol gyfrif, ac yn fwy parod i weithredu'n gynaliadwy a chefnogi eu tref a'u heconomi leol.

Cyn y pandemig COVID-19, roedd Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi lansio Menter y Deg Tref i gefnogi twf a gwydnwch trefi gwledig ar draws y Sir. Y nod oedd datblygu gweledigaeth strategol hirdymor ar gyfer pob tref i gefnogi twf economaidd ac annog canolfannau mwy bywiog ac economaidd gynaliadwy. Rhoddwyd pwyslais newydd ar y fenter hon yng ngoleuni'r pandemig, i geisio adferiad economaidd ar unwaith yn ogystal ag adeiladu ar gyfer twf mwy hirdymor.



2 Y Darlun Ehangach

Adferiad Economaidd Sir Gaerfyrddin

Ar gychwyn 2021, mae economi Sir Gaerfyrddin yn dal o dan ddyl-anwad trwm ymyraethau llywodraeth i gefnogi swyddi a sectorau busnes ac mae ansicrwydd o hyd wrth i'r cyfyngiadau amrywio gyda'r pandemig a'r amrywiol fesurau clo.


Mae'n dal i fod gryn dipyn o amwysedd ynghylch patrwm adferiad, yn ogystal ag effaith Brexit. Bydd yr adferiad yn araf, a gall gymryd llawer blwyddyn i economi Sir Gaerfyrddin adfer i'w lefel flaenorol, heb sôn am adennill y tir a gollwyd yn sgil yr argyfwng COVID-19 a'i effeithiau. Felly, y brif flaenoriaeth ar hyn o bryd ar gyfer adferiad Sir Gâr yw amddiffyn swyddi a diogelu busnesau. Mae pwyslais yn parhau hefyd ar yr heriau mwy hirdymor sy'n cyfyngu ar dwf yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys cynhyrchiant a chyflogau isel, diffygion sgiliau, rhy ychydig o fusnesau'n ehangu i weithredu ar raddfa uwch, a'r angen am fuddsoddi mewn seilwaith a safleoedd busnes modern.

Mae dau brif gonglfaen i adferiad economi Sir Gâr, sef pwysleisio'r lleol a gweithredu ar lefel lleol, a gwneud yr holl economi'n fwy cystadleuol. Mae'r camau gweithredu i gefnogi'r adferiad yn canolbwyntio ar themâu allweddol – Busnes, Pobl a Lle ynghyd â blaenoriaethu pedair uchelgais drawsbynciol:

- **Cysylltedd digidol cwbl ddibynadwy** a diwylliant digidol – a fydd yn sail i adferiad a thwf ledled yr holl economi
- **Sgiliau** – cadw, ailsgilio, uwchsgilio a sicrhau bod gan bobl y sgiliau iawn i gyflawni'r swyddi a gaiff eu creu.

- **Economi werdd** – seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll newid hinsawdd, ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.
- **Economi deg a chydradd** a chefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg

Ffigur 1 Dylanwadau strategol



Cyd-destun strategol

Caiff cyd-destun y cynllun ei ddylanwadu gan amgylchiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n wynebu'r Sir Gâr wledig, gan gynnwys technoleg, argyfwng hinsawdd a datgarboneiddio, effeithiau parhaus COVID-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit).

Mae'r cyd-destun strategol hefyd yn cynnwys blaenoriaethau Cyngor Sir Gaerfyrddin, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a Llywodraeth Cymru, ynghyd â dylanwad cynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chynlluniau Llesiant Lleol.

Mae un o nodau allweddol y Ddeddf yn galw ar gyrrff cyhoeddus i fod yn fwy hyblyg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i amgylchiadau economaidd sy'n newid yn barhaus ac ymateb i'r eithaf ar gyfleoedd newydd am dwf. Gweithredir datblygu cynaliadwy drwy'r holl broses, yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried yr hirdymor, yn rhwystro problemau rhag digwydd neu waethygu, a mabwysiadu dull cyfannol a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar bobl.

Ffigur 2 Dylanwadau strategol



3 Llanybydder heddiw

Tref farchnad fach yw Llanybydder sydd wedi'i lleoli ar gyrion gogleddol Sir Gaerfyrddin yn nyffryn Teifi, ac mae'n gwasanaethu cymuned wledig helaeth o bobtu'r afon sy'n cynnwys Pencarreg, Llanllwni, Highmead ac Alltyblaca.

Mae'r economi'n seiliedig yn bennaf ar y sector amaethyddol a phrif fusnesau'r dref yw'r farchnad da byw a'i chyflogwr mawr, Dunbia (prosesu cig).

Saif Llanybydder ar yr A485 sy'n cysylltu'r dref â Chaerfyrddin er mai'r ganolfan agosaf ati yw Llanbedr Pont Steffan i'r gogledd-ddwyrain (5 milltir) sy'n gweithredu'n lleol fel y brif ganolfan o ran cyflogaeth, siopau a gwasanaethau.

Nodweddir Llanybydder gan ardal fach yn y canol ar gyfer manwerthu sy'n darparu ar gyfer anghenion siopau, masnach a gwasanaethau'r gymuned wledig o ddydd i ddydd. Y tu allan i'r dref, mae'r ardal yn cefnogi amrywiaeth helaeth o ddiwydiannau seiliedig ar amaethyddiaeth a'r tir, peirianwyr, adeiladwyr a gweithgynhyrchwyr. Mae sawl enghraifft o fusnesau bwyd a diod, a thwristiaeth, ynghyd â busnesau proffesiynol a ffordd o fyw.

Mae Llanybydder yn cyflawni swyddogaeth leol bwysig o ran siopau a gwasanaethau, yn gymdeithasol, ac o safbwynt cyflogaeth ac addysg i'r ardal wledig ehangach gan gynnwys yr aneddiadau o'i gwmpas.

Ffigur 3 Cyd-destun lleoliad



Darlun economaidd-gymdeithasol

Poblogaeth cefnwlad Llanybydder yw 7,430 ac mae'n cynnwys 2,800 sy'n byw yn ardal adeiledig y dref. O gymharu ag ardal wledig Sir Gâr, mae'r ardal wedi profi'r canlynol dros y ddeng mlynedd ddiwethaf:

- lleihad bach yn y boblogaeth
- poblogaeth gynyddol o bobl hŷn
- lleihad yn y boblogaeth oedran gwaith
- lefelau cyfartalog o ran gweithgarwch economaidd a chyflogaeth lawn-amser
- incymau aelwydydd sy'n is na'r cyfartaledd
- economi leol â sgiliau is
- cyflogaeth uwch na'r cyfartaledd mewn amaethyddiaeth
- lefelau uwch na'r cyfartaledd o weithio gartref a hunan-gyflogaeth
- prisiau tai sy'n uwch na'r cyfartaledd
- 6% o ostyngiad yn y gallu i siarad Cymraeg rhwng 2001-2011

Dengys y data fod rhan fawr o'r economi leol yn ddibynol ar incymau rhan-amser, sgiliau isel a chyflogau is.

Ffigur 4 Tueddiadau economaidd-gymdeithasol diweddar

	Poblogaeth	Oedran gwaith	Incwm gros aelwydydd	Prisiau tai canolrifon	Economaidd weithgar	Cyflogaeth lawn-amser
Ardal wledig y Sir	Cynydd 1.8%	Lleihad 3%	£28,622	£135k	66%	33%
Ardal Llanybydder	Lleihad 1.1%	Lleihad 4.3%	£25,600	£154k - £180k	67%	32%
	Gweithio o gartref	Hunan-gyflogedig	Galwedigaeth fwyaf	Dim sgiliau	Cymwysterau uwch	Cyflogir mewn amaethyddiaeth
Ardal wledig y Sir	7%	14%	Crefft au medrus 19%	25%	30%	6%
Ardal Llanybydder	10%	18%	Crefft au medrus 27%	30%	28%	11%

Ffynonellau: Cyfrifiad ONS a NOMIS – Astudiaeth linell sylfaen

Busnesau a chyflogaeth

Mae ardal Llanybydder yn ddibynnol iawn ar amaethyddiaeth ac mae amrywiaeth helaeth o weithgareddau busnes yn lleol yn gysylltiedig â'r sector hwnnw. Mae'r trigolion yn ddibynnol hefyd ar Lanbedr Pont Steffan, Caerfyrddin ac i raddau llai, Castellnewydd Emlyn, am eu cyflogaeth.

Dunbia yw prif gonglfaen yr economi leol gyda'r cyfleuster prosesu cig yn cyflogi tua 600 o staff ac mae'n un o gyflogwyr sylweddol y rhanbarth hefyd. Mae'r farchnad dda byw hefyd yn chwarae rhan amlwg yn y dref ac mae'n cynnal arwerthiannau rheolaidd wythnosol a misol sy'n gwasanaethu de-orllewin Cymru. Mae'n hysbys ei bod wedi cynyddu ei gweithgarwch yn dilyn cau mart Aberteifi. Mae mart Llanybydder yn enwog hefyd am y ffeiriau ceffylau rheolaidd sydd ymysg y rhai mwyaf a gynhelir yn Ewrop.

Mae dros 55 o busnesau a adnabuwyd yn ardal Llanybydder, y mwyafrif mewn perchnogaeth leol gyhoeddus mewn amrywiaeth o gwmnïau micro, bach a chanolig eu maint, yn enwedig busnesau gweithdy, storio, gwasanaethau a lled-fanwerthu / cyflenwi. Mae nifer mawr o fusnesau wedi eu gwasgaru ar draws yr anheddiad a'r cymunedau sy'n ei amgylchynu ac mae'n cynnwys cwiltiau arbenigol o fri rhyngwladol Jen Jones Quilts.

Caiff y sectorau cyflogaeth mwyaf eu hadnabod fel a ganlyn:

- 15% masnach cyfanwerthu a manwerthu
- 13% iechyd dynol a gwaith cymdeithasol
- 11% amaethyddiaeth

Dunbia sy'n meddiannu'r safle cyflogaeth mwyaf yn y dref, gyda lleoliadau cyflogaeth pwysig eraill yn safle'r Hen Ffowndri a feddiennir gan Cawdor Cars ac amrywiol ddibenion masnachol yn Nheras yr Orsaf (gan gynnwys garej lorïau a chyflenwyr adeiladu a choed). Mae'r farchnad da byw hefyd yn meddiannu rhan helaeth o ganol y dref.

Y tu allan i Llanybydder mae safle cyflogaeth mawr i'r de o Glan Dua (a feddiennir gan Foundry Commercial ac fel storfa i'r Eisteddfod Genedlaethol) tra bod Ystad Ddiwydiannol Llanybydder, Tŷ Mawr, yn darparu tair uned a hi yw'r unig ystad gyflogaeth a godwyd i'r pwrpas yn yr ardal. Yn ogystal, mae amryw o adeiladau ar wahân wedi eu lleoli yma ac acw ar hyd y B4337 a'r A485 (ee safleoedd garej a chyflenwyr amaethyddol/adeiladu) ynghyd â busnesau sefydledig mewn lleoliadau cefn gwlad gerllaw Alltyblaca, Llanllwni a Glan-Dua.

Nodweddir y farchnad fasnachol leol gan y nodweddion:

- Stoc diwydiannol ysgafn, storio a lled-fanwerthu yn bennaf, llawer ohono o ansawdd eilradd wedi dyddio;
- Lefelau lleol o alw gyda lefelau uchel o feddiannaeth;
- Prinder adeiladau diwydiannol modern ac unedau cychwyn busnesau.

Dywedir bod diffyg cyflenwad o safleoedd cyflogaeth o faint addas ar gael yn broblem fawr i fusnesau lleol o safbwynt eu helpu i ehangu (enwedig o unedau o faint 2,000 – 4,000 troedfedd sgwâr) ynghyd â safleoedd fforddiadwy addas i gychwyn busnesau newydd.

Economi'r dref

Mae'r cynigion lleol o ran siopau a gwasanaethau wedi eu lleoli o amgylch y canol traddodiadol yn Stryd y Farchnad/Stryd y Bont yn ogystal â chroesffordd yr A485/B4337.

Mae'r nifer o fusnesau manwerthu wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae dwy siop hwylustod (Londis a Nisa) ynghyd â phobwyr a deli arbenigol. Ar y llaw arall, mae'r cynnig cymhariaeth yn gyfyngedig iawn ond yn arbenigol, gan gynnwys cyflenwr ceginau, gwerthwyr ceir a chyflenwadau fferm. Mae hefyd siop trin gwallt, fferyllfa a chanolfan chwarae dan do i blant. Nid yw natur leol iawn y cynnig siopau a gwasanaethau yn ddim syndod yn wyneb graddfa fach y canol a hefyd agoswydd Llanbedr Pont Steffan.

Mae amryw o gaffis / siopau cludfwyd a thai tafarnau sy'n gwasanaethu'r fasnach teithwyr yn mynd ar hyd yr A485 ynghyd â masnach diwrnod marchnad. Mae'r cynnig economi gyda'r nos wedi'i gyfyngu i'r tafarndai traddodiadol a'r siopau cludfwyd, fodd bynnag, mae cynnig tŷ bwyta mwy cyfoes ynghyd â llety i'w gael yn y Cross Hands Hotel.

Mae swyddogaeth gymunedol bwysig hefyd i'r dref gan gynnwys canolfan y clwb rygbi lleol. Y tu allan i'r canol, mae cyfleusterau pwysig yng nghanolfan gymdeithasol yr Hen Ysgol a champfa a Chanolfan Deuluol Llanybydder.

Caiff y mart a'r gymuned amaethyddol o'i gwmpas eu cydnabod fel prif gynhaliwr llawer o fusnesau'r dref gan gynnwys y masnachwyr cyflenwadau amaethyddol, arwerthwyr/priswyr/gwerthwyr tai, garej/gwerthiannau a swyddfeydd NFU. Mae hefyd farchnad fach yn gwerthu cynnyrch

(2-3 o stondinau) a gynhelir i gyd-fynd â rhai dyddiau marchnad. Yn ogystal, mae amryw o wasanaethau proffesiynol yn gweithredu o swyddfeydd bach yn ardal Stryd y Farchnad a Theras yr Orsaf.

Nid oes dim cyfleusterau banc yn y dref ac eithrio peiriant ATM yn Nisa. Mae'r banciau agosaf yn Llanbedd a Chaerfyrddin ac ymweliadau gan fanc symudol Natwest am 30 munud ar ddydd Mawrth.

Yn gyffredinol, ymddengys fod canolfan fanwerthu Llanybydder wedi colli llawer o'i busnesau siopau a gwasanaethau ac nad yw mwyach yn darparu'r más critigol a ddisgwylir o ganol tref draddodiadol. Ymddengys fod defnyddwyr a gweithgarwch y mart yn cynnal llawer o'r busnesau manwerthu a gwasanaethau sy'n parhau i fasnachu o'r canol.



Economi Ymwelwyr

Cyfyngedig yw cynnig Llanybydder fel cyrchfan dwristaidd, er ei bod yn cynnig canolfan i ymwelwyr i ddyffryn Teifi. Mae'n enwog am ei thraddodiad prynu a gwerthu ceffylau trwy ei ffeiriau ceffylau misol sy'n denu prynwyr o bob rhan o Ewrop. Mae hyn yn unigryw i Lanybydder, yn enwedig y gwerthiannau mwyaf a gynhelir ym misoedd Medi a Hydref. Mae Jen Jones Welsh Quilts yn cynrychioli busnes arall sy'n adnabyddus am ddenu ymwelwyr rhyngwladol.

Mae safonau cymharol sylfaenol o lety ar gael gyda'r Cross Hands Hotel (a than yn ddiweddar gwesty'r Llew Du) yn cynnig llety i westeion ynghyd ag amryw o sefydliadau gwely a brecwast. Mae amryw o fythynnod hunan-arlwyo ar gael i'w rhentu'n lleol ynghyd â darpariaeth o safleoedd gweryslla a charafannau.

Bernir bod atyniad naturiol yr ardal leol yn cynnig potensial da i ddatblygu a thyfu ei apêl dwristaidd, a gaiff ei ysgogi gan y twf yn y farchnad fewnol Brydeinig ac amaeth-dwristiaeth. Mae'r lleoliad ar yr A485 yn rhoi'r cyfle i dynnu sylw ac annog ymwelwyr i aros ac oedi yn y dref wrth deithio tua'r arfordir ac ymhellach i mewn i'r tir.

Mae'r lleoliad mewn cefn gwlad hyfryd ac anghysbell ynghyd ag afon Teifi yn golygu ei fod yn ddelfrydol ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored, yn enwedig cerdded a beicio (beicio ffordd a beicio mynydd), sy'n cynnig dewis gwahanol am wyliau o gymharu ag ardal fwy garw Bannau Brycheiniog i'r dwyrain. Gallai cyfleoedd adeiladu hefyd ar y sector crefftau gwledig a chelf gain yn lleol trwy gynnig profiadau a chysiau ar grefftau traddodiadol i ymwelwyr.

Caiff apêl yr ardal i feicwyr ei hyrwyddo yn Darganfod Sir Gâr fel rhan o Antur Gwylltir y Gorllewin a Thaith Afon Teifi sy'n hyrwyddo Llanybydder fel lle i oedi am seibiant. Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol 82 Sustrans hefyd yn mynd drwy'r dref.



© Hawlfraint Liz Tipping gyda thrwydded i'w aildefnyddio

Brand a marchnata

Cymharol gyfyngedig yw'r graddau y caiff ardal Llanybydder ei marchnata ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar amryw o wefannau fel Cyngor Cymuned Llanybydder a Rhydcymerau sy'n rhoi darlun bras o hanes a digwyddiadau lleol a chyfarfodydd cyngor. Mae'r wefan Darganfod Sir Gâr ar gyfer y sir gyfan yn hyrwyddo'r ardal leol fel cyrchfan beicio yn bennaf, tra nad oes gan Tripadvisor ond ychydig iawn o sylwadau am Llanybydder.

Mae'r rhan fwyaf o'r presenoldeb cyfryngau cymdeithasol trwy grwpiau Facebook lleol gyda nifer da o fforymau gweithredol, gan gynnwys Pwyllgor y Pentref, Cymorth Cymunedol, Clwb Rygbi a Chanolfan Gymdeithasol yr Hen Ysgol a'r Gampfa. Ategir hyn gan fusnesau presennol yn marchnata trwy bresenoldeb ar wefannau a Facebook.

Mae'r presenoldeb ar gyfryngau a drefnir yn lleol, yn enwedig trwy Facebook, wedi ennill ei blwyf er y byddai gwell presenoldeb ar-lein yn helpu hyrwyddo nodweddion yr ardal a'i busnesau lleol yn well (er enghraifft, mae Jen Jones Welsh Quilts & Blankets yn ymddangos yn Trip Advisor fel cyrchfan yn ogystal ag fel busnes). Mae'r cyfle'n bod i hyrwyddo brand modern a darlun diweddarach o ddigwyddiadau, y cynnig a doniau lleol.

Trafnidiaeth a symudiad


I raddau helaeth, rhwydwaith o ffyrdd gwledig dosbarthiadau A a B a dosbarthiadau is yw'r ffyrdd sy'n gwasanaethu Llanybydder. Mae'r cysylltiadau'n dameidiog i raddau helaeth wrth deithio o'r gogledd i'r de ac yn fwy uniongyrchol wrth

deithio o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae'r brif her yn ymwneud â darparu trafndiaeth gynaliadwy integredig i'r ardal.

Mae gan Llanybydder faes parcio mawr iawn i ymwelwyr a siopwyr o ystyried maint y canol, ger Teras yr Orsaf, gyda digonedd o leoedd i barcio ar y stryd.

Mae patrymau teithio i'r gwaith yn rhoi darlun o ymddygiad cymudwyr a dealltwriaeth o'r nifer o bobl sy'n teithio o ardal y dref i le gwaith (dangosir mewn coch) neu o rywle arall i'r dref i weithio (dangosir mewn glas). Mae'r ffigur yn dangos sut mae Llanybydder yn ddibynnol ar Gaerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan am gyflogaeth

Figur 5 Patrymau Teithio i'r Gwaith



Ffynhonnellau: 2011 Census - DataShine: Commute

Band Eang a Chysylltedd Digidol

Er yr ymddengys fod gan Lanybydder gysylltedd da, mae'n amlwg fod ardaloedd helaeth yn y gefnwlod ehangach sy'n profi anawsterau cyflymder band eang, gan gynnwys Aber Glar, Alltyblaca, Pencarreg, Rhyddlan a Tŷ Mawr. Er enghraifft, mae deiliaid ystad ddiwydiannol Llanybydder wedi dweud bod arafwch y band eang yn effeithio ar fusnesau.

Darganfu arolwg diweddar gan Ofcom fod gan 489 (52%) allan o gyfanswm o 936 o adeiladau yn ardal cod post Llanybydder fand eang nad yw'n un cyflym iawn.

Cynllunio, Datblygu a'r Amgylchedd

Isel yw'r lefelau o weithgarwch datblygu (masnachol a phreswyl) sydd wedi bod yn yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf ac eithrio rhywfaint o ddatblygu tai preswyl ar raddfa fach ar safleoedd tirlenwi a dibyniaeth ar ddatblygwyr lleol i symud ymlaen i godi tai.

Nid yw Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn ystyried Llanybydder fel canolbwynt ar gyfer datblygu newydd sylweddol gyda'r Cynllun Datblygu Lleol yn pennu lleihad yn y nifer o ddyraniadau tai newydd. Fodd bynnag, mae tri safle ac arnynt gyfanswm o 63 o unedau wedi cael eu nodi yn ogystal â nifer o safleoedd tai arfaethedig yn Llanllwni (ar gyfer 16 o unedau). Bernir bod dyrannu amrywiaeth a dewis o safleoedd yn hanfodol er mwyn darparu cymysgedd o fath a deiliadaeth cymysg i Llanybydder, rhywbeth sydd wedi bod yn absennol i raddau helaeth dros y blynyddoedd diwethaf.


Neilltuir tir hefyd ar gyfer dibenion cyflogaeth newydd yn yr Hen Ffowndri sy'n cynnig y prif gyfle am ddatblygiad masnachol yn Llanybydder. Mae'r ardal hon yn cynnig potensial am ailddatblygu llawer ehangach o'r safle hefyd gyda thir dros ben sy'n cynnig cyfleoedd am ddatblygiad masnachol a dibenion cymysg llawer ehangach.

Y tu allan i'r dref, mae dau leoliad sydd â'r potensial i gefnogi datblygiad cyflogaeth newydd yn cynnwys:

- Ystad Ddiwydiannol Llanybydder yn Nhŷ Mawr – mynegwyd pryder bod polisiâu sy'n diogelu'r safle cyflogaeth hwn hyfyd wedi cael eu dileu yn fersiwn adneuo gyfredol y Cynllun Datblygu Gwleidig
- Safle Foundry Commercial yn Glan-Duar.
- safbwynt cyfyngiadau amgylcheddol, mae Afon Teifi wedi achosi llifogydd i rannau isel canol y dref ac mae'n cyfyngu ar dwf y dref i'r dwyrain a'r gogledd.

O safbwynt cyfyngiadau amgylcheddol, mae Afon Teifi wedi bod yn achos llifogydd mewn rhannau o ganol isel y dref ac mae'n cyfyngu ar dwf y dref i'r dwyrain a'r gogledd.

Ffigur 6 Rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol



4 Ystyriaethau a Chyfleoedd Lleol



Prinder mawr o unedau cyflogaeth modern, yn enwedig i fusnesau sy'n cychwyn a busnesau lleol sydd angen lle i dyfu i'w galluogi i ehangu a chreu swyddi



Mae'r angen am well cysylltedd digidol a derbyniad ffonau symudol yn flaenoriaeth, yn enwedig yn y cymunedau gwledig o gwmas, i gartrefi a busnesau



Pryder ynghylch colli cyfleusterau bancio lleol



Hyrwyddo a datblygu'r ardal i ddenu a chadw mwy o ymwelwyr i adeiladu economi dwristiaeth



Ymrwymiad cyllid a chyfleoedd am gymorth busnes i gwmnïau lleol gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o gyllid, a thargedu cymorth at ardaloedd gwledig



Niferoedd isel o dai newydd yn cael eu codi, sy'n effeithio ar y cyflenwad o dai fforddiadwy



Tacluso a gwella golwg rhan ganolog y dref



Sicrhau trefn gynllunio ragweithiol a chadarnhaol i flaenoriaethu a chefnogi cynigion cynllunio lleol



Gwella marchnata a hyrwyddo'r ardal leol a'i busnesau er mwyn goresgyn lleoliad anghysbell



Mynd i'r afael â phroblemau risg llifogydd yn Llanybydder gan gynnwys darparu amddiffynfeydd rhag llifogydd



Hyrwyddo llwybrau diogel i gerdded a beicio yn yr ardal leol, gan gynnwys potensial yr hen reilffordd



Pryderon am y sector amaethyddol, yn gyffredinol ac yn ystod cyfnod pontio Brexit, oherwydd dibyniaeth y dref ar y sector



Pryderon ynghylch y diffyg cyfleoedd am swyddi addas a medrus i bobl ifanc i helpu eu cadw yn yr ardal leol

5 Camau â blaenoriaeth

Mae Llanybydder yn 'dref' farchnad fach a saif mewn lleoliad cymharol anghysbell sy'n ddibynnol iawn ar amaethyddiaeth a diwydiannau cysylltiedig. Mae Llanbedr Pont Steffan tua 5 milltir i ffwrdd, ac mae'n gweithredu fel y brif ganolfan siopau, hamdden a chyflogaeth i'r ardal.

Adlewyrchir y berthynas gref â'r sector amaethyddol yn amlygrwydd y prif cyflogwr, Dunbia (prosesu cig a 600 o weithwyr) ynghyd â'r farchnad da byw a gwerthiannau ceffylau yng nghanol y dref sy'n gweithredu fel un o brif gynhyrchwyr masnach ac ymwelwyr i ganol y dref. Mae llawer o fusnesau lleol, gan gynnwys y rheini y tu mewn a'r tu allan i ganol y dref, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ddibynnol ar incwm a gynhyrchir trwy'r diwydiannau bwyd, ffermio, prosesu a dosbarthu.

Mae'r ddibyniaeth hon ar amaethyddiaeth yn gryfder a gwendid i'r economi leol. Mae effaith COVID-19 a'r risgiau posibl sy'n wynebu'r sector o du Brexit yn dangos pa mor agored a bregus y gallai'r dref fod i ergydion economaidd yn y dyfodol tuag at ailgychwyn ac adfer.

Er bod yr ardal leol yn llai dibynnol ar fanwerthu, lletygarwch a hamdden, bydd ar bob busnes angen cymorth a chanllawiau parhaus, yng ngoleuni COVID-19, gan gynnwys addasu i ganllawiau llywodraeth.

Mae prif bwyslais y Cynllun Twf ar arallgyfeirio'r economi leol a datblygu sail fusnes leol fwy gwydn y tu hwnt i amaethyddiaeth. Dros y tymor byr a'r tymor canolig, y nod yw adnabod a chefnogi cyfleoedd i'r busnesau gweithgynhyrchu a dosbarthu lleol dyfu. Y

prif rwystr yw'r diffyg lleoedd cyflogaeth i annog cychwyn busnesau newydd ac ehangu rhai sy'n bod eisoes. Mae angen hefyd am seilwaith ddigidol o ansawdd uchel (band eang a symudol) law yn llaw â gwell rhagolygon am dai newydd a fforddiadwy, sy'n hanfodol er mwyn cadw pobl iau yn yr ardal leol a mynd i'r afael ag economi cyflogau isel a sgiliau isel.

Blaenoriaethau Strategol

- Arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth - mynd i'r afael â'r prinder sylweddol o leoedd gwaith/unedau masnachol i gefnogi ehangu busnesau lleol a chychwyn rhai o'r newydd;
- Safleoedd cyfle - adnabod a chyflenwi safleoedd masnachol ac iddynt botensial ar gyfer dibenion cymysg, gan gynnwys unedau preswyl, ar nifer o safleoedd amlwg ac o fewn eiddo gwag;
- Seilwaith twristiaeth – datblygu cyfleusterau i annog mwy o arosiadau dros nos yn yr ardal
- Seilwaith digidol, gan gynnwys tref glyfar ('SMART') gyda chysylltedd dibynadwy a strategaethau twf, marchnata ac ymwelwyr ar sail data

Mae camau i gefnogi adferiad a thwf yn ymdrin â'r tair prif thema a grybwyllwyd eisoes – Busnes, Pobl a Lle – gyda phedair blaenoriaeth drawsbynciol ar gyfer creu cysylltedd digidol cwbl ddibynadwy, gwella sgiliau i gyflawni'r swyddi a gaiff eu creu, economi carbon isel a gwyrdd ac economi deg a chydadd sy'n cefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

1 – Adferiad COVID-19

Y pandemig Covid-19 yw'r argyfwng iechyd cyhoeddus ac economaidd mwyaf ers cenedlaethau. Mae wedi cael effaith dramatig ar gymunedau, yr economi a sut rydym yn byw a gweithio. Mae wedi'n hatgoffa ni y gall y lleoedd rydym yn byw a gweithio ynddynt fod yn fregus ar adegau.

Roedd ansawdd a hygyrchedd y dref a'r cefn gwlad yn hynod bwysig i iechyd a lles pobl yn ystod y cyfnodau clo. Mae gwerth-fawrogiad torfol wedi bod o werth llucynnau gwyrdd, llwybrau cerdded a beicio a'r siopau a'r amwynderau lleol.

Ymysg y llawer o heriau pwysig yn y cyfnod adfer mae'r camau brys i ddiogelu busnesau a chyflogwyr lleol a phenderfynu pa newidiadau mewn ymddygiad yn sgil y pandemig sy'n dechrau ymddangos fel nodweddion parhaol o fywyd a gwaith. Mae gan y rhain oblygiadau i'r dref, oherwydd mae pobl yn defnyddio lleoedd yn wahanol, yn teithio llai ac yn treulio mwy o amser yn lleol ac yn gweithio o gartref. Rhaid i'r cynllun adfer a thwf ymateb i'r newidiadau hyn a chyfrannu at adferiad mwy cynaliadwy, gan lunio dyfodol y dref o amgylch gweledigaeth am le mwy gwydn yn economaidd.

Bydd effaith y pandemig yn dal i gael ei deimlo am beth amser a gellir cymryd y camau canlynol i gefnogi busnesau a'r dref:

Nodwyd angen i ddiogelu a chreu swyddi, yn enwedig yn rhai o'r sectorau a gafodd eu taro galetaf, gan gynnwys siopau, hamdden a lletygarwch, a chefnogi busnesau sy'n profi heriau o ran sgiliau yn sgil y pandemig ee gyda sgiliau digidol a TG, marchnata ac arallgyfeirio gan gynnwys datblygu marchnadoedd newydd, tendro lle bo'n addas (yn gysylltiedig â chyfleoedd caffael lleol), mesurau effeithlonrwydd etc.

2 – Cefnogi twf busnesau

Lle bo diffyg seilwaith cyflogaeth i gynnal anghenion y presennol neu'r dyfodol, gall gwydnwch a chynaliadwyedd ardal gael eu tanseilio, gan gyfrannu o bosibl at ddirywiad. Mae diffyg cyfleoedd am waith yn rheswm allweddol hefyd y tu ôl i ddiboblogi gwledig, yn enwedig yn y gweithlu iau. Trwy gefnogi ac annog twf cwmnïau sydd wedi sefydlu'n lleol, yn enwedig mewn diwydiannau mwy arbenigol, bydd hyn yn helpu creu cyflogaeth hirdymor â thâl uwch, cadw gweithwyr, ehangu'r sail sgiliau a helpu cynnal cymunedau lleol.

Yr economi sylfaenol yw asgwrn cefn yr economi wledig ac mae'n cynrychioli'r rhannau hynny o'r economi sy'n cynnal ein hanghenion bob dydd (gofal cymdeithasol, siopau, twristiaeth, bwyd, diod, adeiladu, ynni etc). Yn yr un modd, mae prosesu bwydydd a diodydd lleol o gynhyrchion amaethyddol a garddwriaethol yn ddiwydiant sy'n tyfu. Mae ar yr holl fathau hyn o fusnesau angen cymorth busnes a seilwaith cyflogaeth tebyg

megis lleoedd gweithio fforddiadwy o ansawdd da gyda'r cysylltedd digidol gorau bosibl.

Cyfleoedd yn gynnwys:

A) Buddsoddi mewn safleoedd busnes i gefnogi busnesau sy'n cychwyn o'r newydd, a thyfu ac ehangu busnesau

Mae diffyg lleoedd gweithio addas ar gael i gefnogi twf busnesau micro a bach. Fodd bynnag, mae nifer o gyfleoedd i greu lleoedd newydd i fusnesau naill ai trwy safleoedd datblygu newydd, defnyddio adeiladau cyhoeddus sydd dros ben, cael gafael ar adeiladau gwag, neu sefydlu lleoedd gwaith newydd i'w rhannu.

Mewn ardaloedd gwledig lle nad oes fawr o ddi-ddordeb gan ddatblygwyr ar raddfa fawr, mae gan y sector cyhoeddus hefyd rôl bwysig i'w chwarae wrth weithio gydag amrywiaeth o ddatblygwyr a thirfeddianwyr lleol llai i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddatblygu. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael â'r bwch hyfywedd rhwng cost adeiladu a moderneiddio lleoedd cyflogaeth newydd a'r incwm rhenti, a rôl ddatblygu economaidd bwysig wrth arwain datblygwyr bach trwy'r broses gynllunio.

Mae'r cyfleoedd yn cynnwys:

- Tir yn yr Hen Ffowndri/Teras yr Orsaf - Mae'r safle tir llwyd hwn, sydd y tu ôl i faes parcio Teras yr Orsaf yng nghraidd masnachol Llanybydder, wedi cael ei ddyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n ffurfio rhan o ardal gyflogaeth bresennol fwy sy'n cael ei

hadnabod fel yr Hen Ffowndri ac mae'n cynnwys y lle gwerthu ceir a garej (Cawdor Cars). Mae'r safle wedi cael ei danddefnyddio ers llawer blwyddyn ac fe'i defnyddir ar hyn o bryd i ddibenion storio a gwerthiannau. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2019 am adeilad diwydiannol newydd sy'n dal heb gael ei weithredu. Mae'r safle yn meddiant preifat tirfeddianwr bodlon ac mae wedi'i leoli y tu allan i'r parth llifogydd. Mae'n cynnig cyfle datblygu da ar gyfer dibenion masnachol mewn lleoliad amlwg canolog, yn enwedig ar gyfer unedau busnes bach. Mae trafodaethau gyda busnesau yn yr ardal yn dangos angen clir am arwynebedd gwaith ychwanegol i ehangu busnesau sy'n bod eisoes. Mae'r galw hwn, ynghyd â diddordeb cadarnhaol gan dirfeddianwyr bodlon yn cefnogi'r potensial am gyfle datblygu mwy cynhwysfawr a allai gynnwys safleoedd busnes cyfagos a maes parcio Teras yr Orsaf (sy'n eiddo i'r Cyngor Sir).

Ffigur 7 – Tir yn yr Hen Ffowndri



- Tir ar Ystâd Ddiwydiannol Llanybydder, Tŷ Mawr - Yn ogystal â diogelu'r safle cyflogaeth presennol ar gyfer dibenion economaidd yn y dyfodol yn wyneb ei gyfraniad allweddol i'r economi leol, mae Ystâd Ddiwydiannol Llanybydder yn darparu ystâd ddiwydiannol unswydd o 3 uned ac iddynt feddiannaeth lawn. Mae potensial i gefnogi ehangu'r ystad ddiwydiannol sefydledig ar dir i'r de.
- Foundry Commercials – mae'r safle wedi'i leoli y tu allan i Llanybydder ac mae amryw o fusnesau wedi eu lleoli yma, gan gynnwys Foundry Commercials a stordy a gweithdy'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae digon o le i adeiladu lle cyflogaeth ychwanegol o fewn ffin y safle presennol a thirfeddiannwr bodlon gyda diddordeb mewn datblygu gweithdai/gweithleoedd newydd.

Ffigur 8 – Tir ar Ystâd Ddiwydiannol Llanybydder



Ffigur 9 – Foundry Commercials



B) Canolfannau gweithio a lleoedd gweithio i'w rhannu

Gall newidiadau i arferion gweithio, a'r diddordeb a'r gallu cynyddol i weithio'n agosach at gartref ac ymhell o brif swyddfeydd, arwain at fwy o alw i fyw mewn ardaloedd gwledig a gwella cyfleoedd i helpu cynnal y boblogaeth sydd mewn oedran gwaith. Camau sy'n helpu darparu lleoedd gweithio hyblyg yn agosach at y cartref yn cynnwys:

- Astudiaeth ddichonoldeb – astudiaeth leol i ymchwilio graddau penodol y galw a gofynion lleoedd gwaith gan y dref leol a'r boblogaeth wledig.
- Ymchwilio i'r potensial am greu canolbwynt gwaith newydd i'r sector cyhoeddus mewn trefi gwledig i gynnal gweithio hyblyg ledled y sir.

C) Aildefnyddio adeiladau gwag a rhai a dan-ddefnyddir

Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd am amrywiaeth o gyfleoedd mentro ac adfywio ffisegol.

- Mae eiddo yng nghanol y dref yn cynnig cyfleoedd am safleoedd dros dro i arbrofi gyda syniadau busnes newydd, yn enwedig i bobl ifanc ddod i chwarae rhan weithgar yn y gymuned a datblygu sgiliau mentro.
- Safleoedd busnes newydd – naill ai aildefnyddio adeiladau sector cyhoeddus sydd dros ben neu fynd ati'n ddethol i gaffael adeiladau allweddol gwag sydd wedi gwneud cyfraniad ehangach i adfywiad ffisegol ac economaidd y dref.

Mae nifer bach o adeiladau gwag yng nghanol y dref a allai gynnig potensial, ac mae'r fenter gymunedol i adfywio Hen Neuadd yr Ysgol yn enghraifft o le hyblyg a ddarparwyd.

D) Cefnogi twf busnes o fewn cwmnïau sefydledig

Mae twf yr economi leol yn gysylltiedig â llwyddiant cyflogwyr mwyaf y dref, ac yn enwedig, cwmnïau sefydledig lleol sydd â'u penderfyniadau wedi eu gwreiddio'n gadarn yn y gymuned. Mae Llanybydder yn ddibynol iawn ar barhad llwyddiant a chefnogaeth i ddau fusnes allweddol, sef y Farchnad Da Byw a Dunbia

- **Busnesau allweddol** - Mae'r mesurau i gefnogi eu twf yn cynnwys:
 - Cyd-drafod â chyflogwyr blaenllaw i adnabod cyfleoedd buddsoddi yn y dyfodol a meysydd o gymorth yn y dyfodol
 - Help i gefnogi uwchsgilio'r gweithlu presennol a hyfforddi ac ailsgilio gweithwyr y dyfodol
 - Ymchwilio cyfleoedd i'r economi leol o fewn eu cadwyni cyflenwi presennol
- **Micro-fusnesau** - Neilltuo a thargedu cymorth ar gyfer y cam nesaf o dwf ymysg micro-fentrau bach, sy'n aml yn gwmnïau a berchnogir gan deuluoedd a phobl hunan-gyflogedig o fewn y gymuned.

E) Amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd

Mae llawer o amaethyddiaeth yr ardal yn y sector llaeth, ac ar hyn o bryd, does gan Sir Gaerfyrddin ddim cyfleuster ar gyfer prosesu llaeth yn uniongyrchol; yn wyneb hyn, mae'r Tasglu Gwledig wedi awgrymu ymchwilio i gyfleuster micro/macro prosesu llaeth seiliedig ar fodel cydweithredol. Mae hefyd yn gefnogol i fusnesau seiliedig ar fwyd bach a chanolig eu maint a sefydlu unedau cynhyrchu i gefnogi cynhyrchion bwyd o werth ychwanegol, a allai gynnwys cawsiau arbenigol, hufen ia a chynhyrchion llaeth eraill sy'n gallu denu premiwm ar sail tarddiad lleol.

Y nod yw cefnogi mentrau sy'n creu busnesau o werth uwch a mwy cynhyrchiol trwy gynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd ffermio. Mae'r cynigion yn y cynllun am leoedd gweithio modern, seilwaith digidol a marchnata a hyrwyddo yn ceisio cefnogi'r nod hwn a chyfrannu tuag ato.

3 – Tref a chefn gwlad digidol-glyfar

Mae technoleg ddigidol wedi chwarae rhan bwysig wrth alluogi busnesau a chymunedau i addasu yn ytod y pandemig COVID 19. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gweithio ar hyn o bryd gyda llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig i gyllido busnesau, gweithwyr cyflogedig a chymunedau i fanteisio ar yr holl fuddion sy'n cysylltiedig â chysylltiadau rhynggrwyd cyflymach a mwy dibynadwy a datblygu rhaglenni digidol wi-fi i hyrwyddo trefi marchnad ee negeseuon hysbysu i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â threfi. Mae'r cyfleoedd i weithredu yn cynnwys:

- Sicrhau bod cysylltedd gigabit-alluog ar gael i'r holl gymuned a sicrhau bod yr holl drigolion gwledig a a phob busnes bach gyda llai na 100mb yr eiliad yn gallu elwa o fentrau'r llywodraeth i uwchraddio band eang, ee Cronfa Uwchraddio Band Eang. Mae hyn yn golygu cronni'r galw a defnyddio gwybodaeth am anghenion lleol i fargeinio am welliannau gyda darparwyr telecom.
- Mae'r dref SMART yn cyfuno'r defnydd o ateb Wi-Fi i'r dref gyda dadansoddiad rheolaidd o'r data a gesglir fel y caiff ei rannu gyda busnesau i'w galluogi i ennill dealltwriaeth o gwsmeriaid wrth farchnata. Mae dadansoddeg o'r fath yn cynnwys tueddiadau ymwelwyr fel: cyfraddau troedio; amser a dreulir; dyddiau prysuraf yr wythnos etc; mesur llwyddiant digwyddiad i gyfiawnhau buddsoddiad yn y dyfodol; gellir ei ddefnyddio i ddenu busnes newydd.
- Mae'r Rhynggrwyd Pethau a thechnoleg LoRaWAN yn rhwydwaith arloesi newydd sy'n cefnogi arloesedd busnesau a chymunedau. Mae'r dechnoleg yn newydd ac yn ffurfio rhan o ddatblygu'r cyfuniad iawn o seilwaith cysylltedd, ymwybyddiaeth, sgiliau a chymorth i alluogi busnesau a thrigolion i ffynnu a manteisio'n llawn ar y chwyldro digidol.
- Hyfforddiant digidol – nid yw technoleg ddigidol ond cystal â'r sgiliau a'r hyder sydd yno i'w defnyddio. Bydd hyfforddiant lleol yn hanfodol er mwyn uwchsgilio, rhannu gwybodaeth ac annog y defnydd o dechnoleg ar draws y dref farchnad.

4 – Economi canol y dref a'r economi ymwelwyr

A) Maes Parcio Teras yr Orsaf – Maes Parcio a Gwersylla Aire

Mae safle Llanybydder ar un o'r ffyrdd o'r dwyrain i'r gorllewin i deithwyr sy'n anelu tuag at y gorllewin a'r arfordir yn golygu ei fod yn lle naturiol i ymwelwyr dorri eu siwrnai a defnyddio'r cyfleusterau a'r ddarpariaeth leol o luniaeth.

Un o amcanion allweddol y cynllun yw annog teithwyr i ddefnyddio'r dref yn amlach a hefyd fel canolfan ar gyfer crwydro dyffryn Teifi yn ehangach. Mae'r cysyniad 'Aire' yn dilyn y model Ffrengig o ddarparu lleoedd parcio cymeradwy i garafannau modur gerllaw pentrefi a threfi i annog pobl i ymweld â'r ardal.

Mae maes parcio canol tref Llanybydder mewn lleoliad delfrydol yn agos i siopau ac amwynderau lleol. Y syniad yw creu safle sy'n dod yn adnabyddus a phoblogaeth i'r nifer cynyddol o deithwyr carafannau modur sy'n mynd trwy ganolbarth a gorllewin Cymru.

B) Bancio

Does dim banciau ar ôl yn nyffryn Teifi rhwng Aberteifi, Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan, ac mae colli banciau yn Llanybydder, a'r cyfyngiadau ar pryd mae'r peiriant ATM yn y siop ar gael, wedi effeithio'n uniongyrchol ar lawer o fusnesau a thrigolion lleol. Mae sgil-ffeithiau wedi bod hefyd ar ddefnyddwyr y farchnad ac ymwelwyr i'r ardal sydd angen

Ffigur 10 – Gwersylla Aire



arian parod. Mae banc symudol Natwest yn ymweld ar ddydd Mawrth – un o'r dyddiau tawelaf a phan mae'r Mart wedi cau'n rheolaidd.

Gan weithio gyda threfi eraill yn nyffryn Teifi gan cynnwys Castellnewydd Emlyn, mae cynllun peilot ar gyfer ailgyflwyno cyfleusterau banc a pheiriannau ATM rhad ac am ddim yn cael ei gynig. Byddai angen cefnogaeth i gyd-drafod â'r diwydiant bancio er mwyn lloio'n gadarnhaol am fodel newydd a chynllun peilot am wasanaethau bancio gwledig helaethach.

C) Twristiaeth Beicio

Mae beicio yn un o flaenoriaethau allweddol economi ymwelwyr Sir Gaerfyrddin, gyda'r ardal leol yn cefnogi rhwydwaith o deithiau cyhoeddedig a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Mae cyfleoedd i ddatblygu atyniad yr ardal i feicwyr ffordd ynghyd â'r potensial o helpu ymwelwyr beicio mynydd i Goedwig Brechfa. Y cynnig yw cefnogi busnesau a phrosiectau sy'n gwella, hyrwyddo a gwasanaethu Llanybydder fel cyrchfan beicio ac annog mwy o ddarparwyr llety i ennill achrediad 'Croeso i Feicwyr' ar gyfer lleoedd i aros.

5 – Caffael nwyddau, gweithiau a gwasanaethau y sector cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin yn gwario cannoedd o filiynau yn flynyddol ar nwyddau, gweithiau a gwasanaethau, gan roi amrywiaeth o gyfleoedd masnachol i fusnesau o bob sector a maint. Mae'r Cyngor Sir a'r sector cyhoeddus ehangach yn cydnabod pwysigrwydd eu grym gwario ac yn edrych ar ffyrdd o brynu cymaint o hyn ag sy'n bosibl o fewn y Sir. Gellir gwneud mwy i gefnogi caffael lleol gyda chyfleoedd i gyflawni'r canlynol:

- annog busnesau lleol i geisio cyngor a chanllawiau ar gyfleoedd caffael lleol.
- hyrwyddo cyfleoedd, yn enwedig i fusnesau bach a newydd, am gontractau sector cyhoeddus is o ran gwerth na fyddai efallai wedi bod yn ddeniadol yn draddodiadol i gyflenwyr llai.

6 – Cynlluniau ynni cymunedol

Mae gwydnwch lleol yn un o nodau allweddol menter y Deg Tref ac felly un o'r elfennau craidd yw cefnogi datblygiad cynlluniau ynni cymunedol i'r trefi unigol, a fydd yn y pen draw yn cynnig ffynhonnell o ynni i gymunedau lleol a busnesau lleol yn ogystal â helpu mynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu'r potensial i gofleidio'r cyfleoedd cysylltiedig ag ynni adnewyddadwy sydd wedi hen sefydlu ei hun yn y Sir, yn enwedig o safbwynt ei fuddion uniongyrchol i gymunedau lleol a chefnogi mwy o wydnwch amgylcheddol.

Er mwyn helpu cyflawni hyn, bydd Ynni Sir Gâr yn helpu cymunedau i adnabod a chwmpasu safleoedd posibl ar gyfer cynhyrchu ynni cymunedol. Bydd y safleoedd hyn yn elwa o leihad yn eu bil ynni.

7 – Economi Gylchol

Economi gylchol yw lle caiff gwastraff ei osgoi a lle caiff y pethau a ddefnyddiwn eu cadw mewn defnydd gyhyd â phosibl. A bydd cefnogi buddsoddi lleol mewn busnesau a mentrau cylchol, sef busnesau sy'n cadw pethau mewn defnydd yn hirach, trwy aildefnyddio, atgyweirio, ailgynhyrchu ac adnewyddu yn helpu adfywio'r economi trwy ychwanegu swyddi a datblygu swyddi'n lleol. Trwy wneud hyn yn lleol, y nod hanfodol, yn ogystal â chadw arian mewn cylchrediad o fewn y sir, yw lleihau'r effaith a gaiff y gymuned ar yr amgylchedd.

Y nod yw cefnogi perchnogion busnesau, entrepreneuriaid a gwirfoddolwyr gyda syniadau i helpu datblygu'r economi gylchol yn y dref a Sir Gaerfyrddin.

8 – Cartrefi fforddiadwy

Mae ar drefi gwledig ffyniannus, gwydn a chynaliadwy angen cymysgedd o dai newydd yn ogystal â chyfleoedd cyflogaeth os ydynt am lwyddo i gadw a denu poblogaeth o oedran gwaith. Mae deinameg y farchnad dai leol yn cynnwys sawl ffactor, nid prisiau tai yn unig, ond materion eraill fel fforddiadwyedd cymharol, mewnfudo, patrymau teithio i'r gwaith, rhagamcanion poblogaeth a chyfraddau cwblhau anheddau newydd etc. Yn gyffredinol, mae'r angen am gartrefi llai a llai drud ar gyfer teuluoedd iau ac aelwydydd sy'n ffurfio o'r newydd – boed am bris y farchnad, ar drefniant canolraddol neu rent fforddiadwy.

Mae ardaloedd gwledig fel Llanybydder wedi profi graddau cymharol isel o ddiddordeb gan ddatblygwyr dros y blynyddoedd diwethaf. Ar yr un pryd, mae problemau fforddiadwyedd wedi tyfu wrth i brisiau tai godi'n uwch na'r cyfartaledd gwledig ynghych ac incymau cartref is na'r cyfartaledd. Mae'r diffyg cyflawni wedi arwain at leihad cyffredinol yn y nifer o dai a gynllunir. Trwy gyfres o gamau gweithredu, mae'r cyfle yma i'r sector cyhoeddus, tîrfeiddianwyr a datblygwyr lleol llai i weithio gyda'i gilydd i symud ymlaen gyda'r twf newydd a gynllunir yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ac adeiladu economi gynaliadwy.

6 Cyflawni'r gwaith

Mae'r cynllun cyflawni yn rhoi syniad o raddfeydd amser, awgrymiadau am bartneriaid cyflawni a'r camau nesaf. Ym mhob achos, byddai angen adolygiad manwl o gwmpas y prosiect a gwaith dylunio manylach i roi amcangyfrifon o gostau.

Mae'r cynllun yn cynnwys tri cham, tymor byr, canolig a hir gyda gradd o flaenoriaeth a awgrymir ar sail diddordeb a gweithgarwch rhanddeiliaid a'r angen i gwblhau tasgau penodol fel casglu data i alluogi datblygu prosiectau allweddol.

- Tymor byr – ar unwaith a'r 12 mis nesaf
- Tymor canolig – 2 neu 3 blynedd
- Tymor hir – 5 mlynedd a'r tu hwnt i hynny.

Argymhellir bod cyfres o brosiectau cynnar, 'enillion cyflym' yn cael eu dewis a'u cychwyn er mwyn dangos gweithgarwch ac ennill cefnogaeth ac ymrwymiad busnesau a'r gymuned. Bydd y rhain yn arferol yn brosiectau y gellir eu cyllido o ffrydiau referniw sy'n bod eisoes neu sy'n golygu buddsoddiad isel o ran cyfalaf. Lle caiff prosiectau mwy cymhleth ond eto â blaenoriaeth uchel eu nodi, dylid blaenoriaethu datblygiad cynnar achos busnes amlinellol a dyluniad.

Mae ffrydiau cyllid ac adnoddau yn aml yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'r rheini a oedd ar gael ar adeg paratoi'r cynllun hwn wedi eu nodi yn y tablau canlynol. Yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, bydd newidiadau sylweddol i'r tirwedd cyllido. Bydd y rhaglenni presennol sy'n cynnal y gweithgarwch presennol, megis Cronfa Datblygu Rhanbarthol

Ewrop (LEADER) yn cael ei disodli yn y pen draw ar lefel y Deyrnas Unedig a'u cyfeirio trwy Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Nid oes sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei wneud. Yng ngoleuni hyn, bydd angen i'r cynllun fod yn ymatebol dros y 12-24 mis nesaf ac yn gydnaws â ffynonellau o gyllid a ddaw i'r amlwg.

Tabl 1 – Cynllun Gweithredu

ACTION	TIMEFRAME	KEY STAKEHOLDER/DELIVERY PARTNER	POTENTIAL FUNDING & RESOURCES	NEXT STEPS
1 - COVID-19 RECOVERY	Short term	Carmarthenshire CC, Business Wales, and Regional Learning and Skills Partnership (RLSP)	CCC Business Recovery and Support Fund for businesses. LEADER Seed Funding	Carmarthenshire CC will be coordinating with partner agencies support for businesses recovering from the impacts of the pandemic.
2 - SUPPORTING BUSINESS GROWTH <ul style="list-style-type: none"> • Business premises • Work hubs/shared workspace • Re-use buildings • Supporting business growth • Agriculture & food production 	Short and medium	Carmarthenshire CC, business and property owners, Business Wales, and Regional Learning and Skills Partnership (RLSP)	LEADER Seed Funding Carmarthenshire CC Business Grant Funds & Commercial Property Development Funds	Initiate dialogue with land and property owners and undertake site feasibility and master-planning studies. Working with key local employers to identify growth requirements
3 - SMART DIGITAL TOWNS AND COUNTRYSIDE <ul style="list-style-type: none"> • Broadband upgrade • Wifi town • IoT/LoRaWAN • Digital training 	Short and medium term	Carmarthenshire CC, Town Council and Business groups	LEADER Seed Funding Wi-fi Towns fund and resources IoT/LoRaWAN deployment and training Broadband Upgrade Fund	Aggregate demand for broadband upgrade. Wi-fi towns support and training for local delivery partner Identify business interest in IoT/LoRaWAN

ACTION	TIMEFRAME	KEY STAKEHOLDER/DELIVERY PARTNER	POTENTIAL FUNDING & RESOURCES	NEXT STEPS
<p>4 – VISITOR ECONOMY AND TOWN CENTRE</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aire Camping • Banking facilities • Cycle tourism 	Short, Medium and Long Term	<p>Discover Carmarthenshire, Carmarthenshire CC</p> <p>Carmarthenshire CC, Local business community, Banking industry</p>	<p>LEADER Seed funding</p> <p>Cycling Friendly Infrastructure Funds</p> <p>Carmarthenshire CC Business Grant Funds</p>	<p>Explore feasibility of developing aire camping site with Discover Carmarthenshire and Carmarthenshire County Council</p> <p>Investigate opportunities for a pilot scheme with the banking industry to improve access to banking facilities (potential to link with other towns)</p> <p>Develop and promote cycling and events with Discover Carmarthenshire, including opportunities for local business</p>
<p>5 – PROGRESSIVE PROCUREMENT</p> <ul style="list-style-type: none"> • Low Value Contracts 	Short, Medium and Long Term	Carmarthenshire CC	<p>Carmarthenshire CC Business Grant Funds</p> <p>Carmarthenshire CC Progressive Procurement initiatives</p>	Actions in response to the recommendations following the advancing progressive procurement study

ACTION	TIMEFRAME	KEY STAKEHOLDER/DELIVERY PARTNER	POTENTIAL FUNDING & RESOURCES	NEXT STEPS
6 – COMMUNITY ENERGY SCHEMES	Short term	Business and Ynni Sir Gar	LEADER/ Ynni Sir Gâr	Ynni Sir Gâr have LEADER funding until March 2022 for developing community renewable energy projects and they are looking for business and other organisations to take this forward with.
7 - CIRCULAR ECONOMY	Short and Medium Term	Businesses and Carmarthenshire CC	LEADER Seed Funding and Circular economy initiative	Circular Economy feasibility study recommendations
8 – AFFORDABLE HOMES	Short, Medium and Long term	Carmarthenshire CC/developers	Developer contributions and Carmarthenshire CC and Cartrefi Croeso	Secure new affordable homes via the review of the LDP policy and direct delivery via developers and Cartrefi Croeso and housing associations

Tabl 2: Cyllid ac Adnoddau

CYMORTH SWYDDOGION TREFI MARCHNAD
Mae cyllid wedi cael ei sicrhau trwy raglen Leader RDP i recriwtio 2 X Swyddog Trefi Marchnad a fydd yn gweithio gyda'r 10 Tref i weithredu camau a nodwyd yn y cynlluniau twf economaidd. Y swyddi hyn fydd y cyswllt allweddol rhwng y trefi a'r amrywiol gyfarwyddiaethau ledled yr Awdurdod.
CYLLID CYCHWYNNOL LEADER
£10k o refeniw i helpu'r trefi i gefnogi a datblygu argymhellion sy'n codi o'r cynllun twf. Enghreifftiau o'r gweithgareddau sy'n gymwys am gymorth (nid yw'n hollgynhwysol) gall cynnwys costau ar gyfer adeiladau busnes, twristiaeth / digwyddiadau, hyfforddi, marchnata, gwasanaethau arbenigol a mesurau adfer COVID-19.
CYNLLUNIAU YNNI CYMUNEDOL
Gallai datblygu cynlluniau ynni cymunedol i'r trefi fod â'r potensial o gynnig cyfleoedd cynhyrchu ynni i'r trefi hyn. Mae Ynni Sir Gâr Cyf wedi cael eu comisiynu i adnabod a chwmpasu safleoedd posibl o amgylch y Deg Tref gan weithio'n agos gyda Gwasanaethau Ynni Cymru y gellid eu datblygu ymhellach yn brosiectau ynni cymunedol.
CYLLID CYFALAF
Mae Cyngor Sir Gâr ar hyn o bryd yn ystyried cynigion i neilltuo cyllid cyfalaf i gynorthwyo gyda chyflawni mentrau a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol ar gyfer prosiectau a nodir yn y Cynlluniau Twf.

ADFERIAD A CHYMORTH BUSNES CYNGOR SIR GÂR

Yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol, rhagwelir y bydd y ffrydiau cyllid adfer busnesau o dan arweiniad y Cyngor Sir ar gael i fusnesau o fis Mawrth 2021.

- Cronfa Adfer i ddiogelu/creu swyddi cynaliadwy mewn sectorau targedu twf
- Cronfa Gymorth refeniw i fuddsoddi mewn swyddi, marchnata ac arallgyfeirio i ddiogelu a thyfu swyddi
- Cronfa menter gwledig Sir Gaerfyrddin – datblygiad o adeiladau busnes newydd a adeiladau busnes sydd yn bodoli eisoes
- Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol Trawsnewidiol Sir Gaerfyrddin - cymorth ariannol ar gyfer adeiladu adeiladau am ddefnydd diwydiannol a masnachol.
- Cronfa cychwyn busnes - cefnogaeth gyfalaf ar gyfer creu busnesau newydd lle bydd swyddi newydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r cymorth.
- Cronfa tyfu busnes - cymorth ar gyfer prosiectau gwariant cyfalaf a gwariant refeniw arbenigol lle bydd swyddi newydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r cymorth.

MARCHNATA LLEOL/NODWEDDION UNIGRYW

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau trwy raglen Leader i hyrwyddo Sir Gâr wledig i dwristiaid posibl. Caiff y prosiect ei arwain gan Dîm Marchnata a Chyfyngau Cyngor Sir Gâr a bydd yn datblygu straeon a rhesymau dros ymweld, rhai sy'n mawrygu'r diwylliant a'r iaith Gymraeg, cynnyrch a gynhyrchir yn lleol etc, a chyflawni cynllun gweithredu marchnata (gan gynnwys deunydd hyrwyddo wedi ei frandio, cynnwys wedi'i baratoi ar gyfer cyfyngau cymdeithasol ee testun, lluniau a fideo, a phecon yn fusnesau.

SAFLEOEDD GWAG/DIBENION CYFAMSEROL

Cyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau arferion da i'r rhanbarth a fydd yn galluogi cymunedau i ddatblygu safleoedd gwag yn lleoedd 'cyfamserol' neu siopau dros dro, gan roi cyn-gor ymarferol ar faterion cyfreithiol, trethi busnes etc. Potensial i ddefnyddio'r £10k cyllid Leader i addasu adeiladau gwag i'r di-ben hwn.

ECONOMI GYLCHOL – ADFERIAD CYNALIADWY O COVID-19

Mae'r Cyngor Sir wrthi ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth i gefnogi buddsoddi lleol mewn busnesau a mentrau cylchol: sef, mentrau sy'n cadw pethau mewn defnydd yn hirach, trwy ail-ddefnyddio, atgyweirio, ailgynhyrchu ac adnewyddu, ac wrth wneud hynny, helpu adfywio'r gymuned trwy ychwanegu swyddi a datblygu sgiliau'n lleol. Trwy wneud hyn yn lleol, bydd y fenter, yn ogystal â chadw arian mewn cylchrediad o fewn y sir, yn lleihau'r effaith mae Sir Gaerfyrddin yn ei gael ar yr amgylchedd. Anogir prosiectau newydd posibl gyda rhanddeiliaid, perchnogion busnesau, entrepreneuriaid, gwirfoddolwyr lleol etc.

TREFI DIGIDOL/CLYFAR

Mae technoleg ddigidol wedi chwarae rhan sylweddol mewn galluogi busnesau a chymunedau i addasu yn ystod y pandemig COVID 19.

- Trefi Wi-fi – Wedi sicrhau cyllid i gyflwyno wi-fi am ddim i bob un o'r Deg Tref am gyfnod o 2 flynedd. Mantais rhwydwaith wi-fi tref yw'r data mae'n ei ddarparu o ran tueddiadau ymwelwyr fel: cyfraddau troedio; amser a dreulir; dyddiau prysuraf yr wythnos etc; mesur llwyddiant digwyddiad i gyfiawnhau buddsoddiad yn y dyfodol; gellir

ei ddefnyddio i ddenu busnes newydd. Amser y swyddogion i weithio gyda'r trefi i ddadansoddi'r data a sicrhau bod busnesau lleol yn derbyn yr wybodaeth hon a datblygu cylchlythyr newyddion rheolaidd yn rhoi gwybodaeth ar y trefi; cynigion busnes lleol, digwyddiadau etc

- Y Rhyngwrwd Pethau – Mentrau i archwilio a datblygu'r defnydd o'r Rhyngwrwd Pethau a thechnoleg LoRaWAN fel ffordd o gefnogi'r Deg Tref. Sicrhawyd cyllid i brynu pyrth l'r Rhyngwrwd Pethau. Neilltuwyd cyllid pellach ar gyfer prynu synwryddion a'u defnyddio unwaith y mae syniadau wedi cael eu nodi.
- Hyfforddiant digidol – Hwyluso cyfres o hyfforddiant rhithiol er mwyn uwchsgilio, rhannu gwybodaeth ac annog y defnydd o dechnoleg ar draws y trefi marchnad.
- Cysylltedd Digidol – Mae'r Awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda Llywodraethau Prydain a Chymru i hyrwyddo'r Gronfa Uwchraddio Band Eang i helpu busnesau, gweithwyr a chymunedau i fanteisio ar yr holl fuddion sy'n gysylltiedig â chysylltiadau rhyngwrwd cyflymach a mwy dibynadwy.